
I S - D D E D D F W R I A E T H

LIC21-90

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cynllun
Imiwneiddio rhag y Ffliw ac
Imiwneiddio Niwmococol)
(Gwasanaeth Ychwanegol o dan
Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2)
(Diwygio) 2021

Gwnaed 10 Tachwedd 2021

Yn dod i rym 11 Tachwedd 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2021.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 11 Tachwedd 2021.

**Diwygiadau i Gyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y**

(1) 2006 p. 42.

Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2021

2.—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2021 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Nghyfarwyddyd 2(1) (dehongli) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “aelod o staff cymwys” (“*eligible staff member*”) yw unigolyn sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen yn uniongyrchol gan ddarparwr gofal sylfaenol fel—

- (a) proffesiynolyn gofal iechyd y mae ei brif rôl yn golygu darparu gwasanaethau GIG yn uniongyrchol i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol, neu
- (b) cyflogai i'r darparwr gofal sylfaenol y mae ei brif rôl yn golygu cefnogi'n uniongyrchol gyflenwi gwasanaethau GIG i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol, ac sy'n darparu'r cymorth hwnnw mewn rôl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion yn y lleoliad y mae'r cleifion GIG hynny yn cael y gwasanaethau GIG hynny;

ystyr “claf GIG” (“*NHS patient*”) yw unigolyn y mae contractwr gofal sylfaenol cymwys yn darparu gwasanaethau GIG iddo;

ystyr “contractwr deintyddol” (“*dental contractor*”) yw contractwr GDC neu gontractwr GDS;

ystyr “contractwr GDC” (“*GDS contractor*”) yw person sy'n barti i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 57 o'r Ddeddf;

ystyr “contractwr GDS” (“*PDS contractor*”) yw person sy'n barti i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 64 o'r Ddeddf;

ystyr “contractwr GOC” (“*GOS contractor*”) yw person sydd wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig Bwrdd Iechyd Lleol ac sy'n darparu gwasanaethau GIG o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(1);

(1) 1986 Rhif 975.

ystyr “darparwr AILIC” (*EHEW provider*) yw person sy’n barti i contract neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y gwasanaeth AILIC ac sydd hefyd—

(a) wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989(1), neu

(b) yn optegydd corfforedig;

ystyr “darparwr GGGC” (*LVSU provider*) yw person sy’n barti i contract neu drefniant â Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y GGGC ac sydd hefyd—

(a) wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989, neu

(b) yn optegydd corfforedig;

ystyr “darparwr gofal sylfaenol cymwys” (*eligible primary care provider*) yw contractwr deintyddol, contractwr GMC, optegydd GIG neu fferylllydd GIG(2), a’u haelodau o staff cymwys;

ystyr “fferylllydd GIG” (*NHS pharmacist*) yw person sy’n cyflawni gwasanaethau GIG ac—

(a) sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 1 o Gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol(3) neu yn y gofrestr a gynhelir o dan Erthyglau 6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976(4), neu

(b) sy’n cynnal busnes fferyllfa fanwerthu yn gyfreithlon yn unol ag adran 69 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(5),

ac y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr fferyllol o dan reoliad 10 (lunio a chynnal rhestrau fferyllol) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(6), ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol yn benodol drwy ddarparu cyffuriau;

ystyr “GGGC” (*LVSU*) yw’r gwasanaeth cenedlaethol a elwir Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru sy’n trefnu i ddarparu

(1) 1989 p. 44.

(2) CEM/CMO/2021/32.

(3) Fe’i cynhelir o dan erthygl 19 (sefydlu a chynnal y Gofrestr a mynediad iddi) o Orchymyn Fferylliaeth 2010 (O.S. 2010/231).

(4) O.S. 1976/1213 (G.I. 22).

(5) 1968 p. 67.

(6) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

asesiadau golwg gwan a chymorth adsefydlu i gleientiaid ac yn sicrhau y darperir cymhorthion golwg gwan i gleientiaid fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(1);

ystyr “gwasanaeth AILIC” (“*EHEW service*”) yw Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy’n trefnu i ddarparu archwiliadau iechyd llygaid i ddefnyddwyr y gwasanaeth y mae’n ofynnol iddynt gael archwiliad o’r fath, darparu cyngor i ddefnyddwyr y gwasanaeth hwnnw, atgyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw ymlaen i wasanaethau pellach a rhoi gwybod iddynt am wasanaethau pellach fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(2);

ystyr “gwasanaethau GIG” (“*NHS services*”) yw gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau offthalmig neu wasanaethau fferyllol (fel y bo’n briodol i’r darparwr gofal sylfaenol perthnasol) a ddarperir yn unol â Rhannau 4 i 7 (yn gynhwysol) o’r Ddeddf, a darparu’r gwasanaeth AILIC a’r GGGC gan optegydd GIG, fel rhan o’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru;

ystyr “optegydd GIG” (“*NHS optician*”) yw contractwr GOC, darparwr AILIC neu ddarparwr GGGC;”.

(3) Yng Nghyfarwyddyd 4—

- (a) ym mharagraff (1)(a) ar ôl “contractwr GMC hwnnw” mewnosoder “a darparwyr gofal sylfaenol cymwys”;
- (b) ym mharagraff (1)(b)(i) yn lle “mewn perthynas â chleifion” rhodder “mewn perthynas â darparwyr gofal sylfaenol cymwys, cleifion”;
- (c) ym mharagraff (3) ar ôl “Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd” mewnosoder “i ddarparwyr gofal sylfaenol cymwys ac”;
- (d) ym mharagraff (4)(b)(i)—
 - (i) yn is-baragraff (mm) hepgorer “a”, a
 - (ii) ar ôl is-baragraff (mm) mewnosoder—

(1) 2016 Rhif 11.
(2) 2016 Rhif 10.

“(nn) yn ddarparwr gofal
sylfaenol cymwys, a”.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy
Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd o
dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru**

Dyddiad: 10 Tachwedd 2021